PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2020

PWNC

DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2019/20

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

- **Derbyn llythyr Archwilio Cymru ynghylch Datganiad Blynyddol y PPC 2019/20**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol Archwiliedig ar gyfer 2019/20**
- **Nodi'r Datganiad o Gyfrifon Heb ei Archwilio ar gyfer 2019/20**

RHESYMAU:

Mae angen cwblhau Datganiad Blynyddol ar gyfer 2019/20.

Mae adrannau Datganiadau Cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Datganiad Blynyddol wedi'u paratoi gan yr Awdurdod Lletya ac mae Adran Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol. Mae'r Datganiad Blynyddol wedi cael ei archwilio gan Archwilio Cymru ac amgaeir eu llythyr.

Mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi llunio Datganiad o Gyfrifon i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2019/20. Mae hwn er gwybodaeth yn unig ac nid oes angen iddo gael ei archwilio.

Awdur yr Adroddiad:	Swydd:	Rhif Ffôn: 01267 224160
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Caerfyrddin**	**E-bost:** CMoore@sirgar.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2020

DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2019/20

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Ar gyfer cydbwyllgorau ag incwm a gwariant sy'n is na £2.5 miliwn, rhaid i gyfrifon gael eu paratoi ar ffurf datganiad blynyddol. Costau Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2019/20 yw £299,000.

Caiff yr Adroddiad Blynyddol ei rannu'n adrannau fel a ganlyn:

1. Datganiad Cyfrifyddu 2019/20 – gan gynnwys datganiad o incwm a gwariant / derbynebau a thaliadau a datganiad o falansau
2. Datganiad Llywodraethu Blynyddol
3. Cymeradwyaeth ac ardystiad gan y pwyllgor
4. Tystysgrif ac adroddiad archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru
5. Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol

Mae adrannau 1 a 2 uchod wedi cael eu cwblhau gan yr Awdurdod Lletya yn unol ag arferion dilys fel a nodir yn y Canllaw i Ymarferwyr. Mae adran 5 wedi cael ei chwblhau gan Adran Archwilio Mewnol yr Awdurdod Lletya. Mae'r Datganiad Blynyddol wedi cael ei harchwilio gan Archwilio Cymru.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi paratoi Datganiad o Gyfrifon i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2019/20. Nid yw'r Datganiad yn ofyniad statudol ac ni fydd yn cael ei archwilio. Mae wedi cael ei baratoi er gwybodaeth yn unig, er mwyn ategu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldebau **DIM**	Cyfreithiol **OES**	Cyllid **OES**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Cyfreithiol Cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.				
Cyllid Cost net gweithgareddau Partneriaeth Pensiynau Cymru oedd £299,000, sef tâl a gafodd ei ailgodi i'r wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma.

Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth **Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:** **MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod y Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld / DOLEN GWEFAN**
Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014		Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin